# Y Pwyllgor Busnes

## Cofnodion BC(3)24-10

**Dyddiad:**Dydd Mawrth 28 Medi 2010
**Amser:**08.30
**Lleoliad:**Ystafell Bwyllgora 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)
Jane Hutt, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb
Nick Ramsay, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig
Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Chris Franks, Plaid Cymru

### Swyddogion yn bresennol

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Marion Stapleton, Is-adran Busnes y Cynulliad a Rheoli Deddfwriaeth
Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol
Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth
Sulafa Halstead, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad
Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Busnes

### 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Nododd y Dirprwy Lywydd fod ymddiheuriadau wedi dod i law gan Jocelyn Davies.

### 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

#### BC(3)23-10 (cofnodion drafft) – Dydd Mawrth 21 Medi 2010

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddant yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

### 3. Busnes i ddod

#### Busnes yr wythnos hon - BC(3)24-10(p1)

3.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ohirio dadl dydd Mercher ar Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar Gynhyrchu Swyddi yn yr Economi Werdd.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor na fydd y cyfnod pleidleisio ddydd Mawrth na dydd Mercher yn digwydd cyn 5.00pm.

3.3 Nododd y Pwyllgor drefn busnes ar gyfer 28 a 29 Medi 2010.

#### Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)24-10(p2)

3.4 Cyhoeddodd y Gweinidog dros Fusnes y bydd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud datganiad ar Rannu Gwasanaethau ar 5 Hydref 2010.

3.5 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

#### Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)24-10(p3)

3.6 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i amserlennu cynnig i gytuno ar newidiadau dros dro yn Rheol Sefydlog 27 mewn perthynas ag amserlen y gyllideb flynyddol ddydd Mawrth 5 Hydref 2010.

3.7 Cytunodd y Pwyllgor i ad-drefnu'r ddadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar Gynhyrchu Swyddi yn yr Economi Werdd ddydd Mercher 13 Hydref.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.9 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

### 4. Busnes arall

**(i) Amserlen y Gyllideb Flynyddol – cynnig i newid Rheol Sefydlog 27 dros dro – BC(3)24-10(p4)**

4.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes y newidiadau dros dro yn Rheol Sefydlog 27 i newid yr amserlen ar gyfer trafod cyllidebau'r Comisiwn a'r Llywodraeth.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor i osod adroddiad a chynnig i gymeradwyo'r newidiadau dros dro arfaethedig yn Rheol Sefydlog 27 a gymerir yn y Cyfarfod Llawn ar 5 Hydref 2010.

**ii) Adolygu Dyddiadau'r Toriadau 2010-2011- BC(3)24-10(p5)**

4.3 Cadarnhaodd y Pwyllgor Busnes y dyddiadau a ganlyn ar gyfer y toriadau:

Toriad y Nadolig – dydd Llun 13 Rhagfyr 2010 – dydd Sul 9 Ionawr 2011

Hanner tymor y gwanwyn – dydd Llun 21 Chwefror 2011 – dydd Sul 27 Chwefror 2011 –

**(iii) Adolygiad o'r Rheolau Sefydlog – amserlen trafodaethau'r Pwyllgor Busnes– BC(3)24-10(p6)**

4.4 Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar amserlen ar gyfer trafod y newidiadau yn y Rheolau Sefydlog gan gynnwys trefnu cyfarfodydd cyhoeddus ar ôl toriad hanner tymor.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**